# SL(5)777 – Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 160(1), 168 a 210(1) a (7) o Ddeddf Addysg 2002 (‘Deddf 2002’). Mae’r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 (“Rheoliadau 2003”) mewn perthynas â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (“Deddf 2018”).

Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â cheisiadau i gofrestru ysgolion annibynnol, a gwybodaeth sydd i'w darparu i Weinidogion Cymru gan berchnogion ysgolion annibynnol, o dan Ddeddf 2002. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gais i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru gynnwys gwybodaeth am y math(au) o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl), ac i Weinidogion Cymru gael cadarnhad ynghylch nifer y disgyblion yn yr ysgol y cynhelir cynllun datblygu unigol mewn perthynas â hwy, neu y nodwyd fel arall bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Daw'r rheoliadau newydd hyn i rym ar 1 Medi 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod tri diffiniad yn rheoliad 2 o Reoliadau 2003 drwy gyfeirio at adrannau o Ddeddf 2018 nad ydynt eto mewn grym, sef adrannau 2, 3 a 10, ac yn mewnosod dau ddiffiniad arall drwy gyfeirio at adran 312 o Ddeddf Addysg 1996, a gaiff ei diddymu yn y dyfodol gan baragraff 4(9) o Atodlen 1 i Ddeddf 2018.

Mae paragraff 3.7 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau:

> *"Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021."*

Felly, er mwyn i ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn weithredu'n effeithiol, bydd angen i adrannau 2, 3 a 10 o Ddeddf 2018 ddod i rym erbyn 1 Medi 2021, yn unol â Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 100(3) o Ddeddf 2018, a bydd angen sicrhau hefyd nad yw paragraff 4(9) o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn dod i rym erbyn y dyddiad hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.